

Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (Cam 3) 2013-2023

Ymateb gan Dyfodol i'r Iaith

Mae Dyfodol i'r iaith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles yr iaith Gymraeg. Nod y mudiad yw dylanwadu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar sylwedd a chynnwys polisiau cyhoeddus a deddfwriaeth er mwyn hybu twf a ffyniant y Gymraeg ym mhob maes polisi. Bydd yn gweithredu er budd Cymru a'i phobl, gan ennill cefnogaeth a pharch i'r iaith a sicrhau bod y Gymraeg yn fater byw ar yr agenda gwleidyddol.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. A ydych yn cytuno â dull gweithredu arfaethedig trydydd cam y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn - hynny yw, gweledigaeth 10 mlynedd sy'n cynnwys cynlluniau gweithredu cynyddol a adolygir bob hyn a hyn sy'n amlinellu'r blaenoriaethau a'r gweithgareddau tymor byrrach?

Mae Dyfodol i'r iaith yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r Ymgynghoriad ar Straegaeth Pobl Hŷn yng Nghymru.

Gallwn groesawu hanfod y Strategaeth ddrafft fel cam pwysig i sicrhau lles pobl hŷn yng Nghymru, a chrosawn yn benodol y datganiad ar bwysigrwydd ystyried "galluoedd (ac) uchelgeisiau unigol" pobl.

Ond rydym yn siomedig tu hwnt nad oes unrhyw gyfeiriad yn y ddogfen at faterion yn ymwneud â iaith a'r angen i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael y gofal, y gwasanaeth a'r parch y maen nhw'n ei haeddu yn y Gymraeg, neu yn ddwyieithog, yn ôl eu dymuniad a'u hangen personol. Rydym yn argymhell bod angen gwneud anghenion iaith yn hysbys, yn hytrach na chymryd yn ganiataol y byddant yn amlwg o fewn cyd-destun sy'n sôn am bwysigrwydd ystyried anghenion unigol. Mae pobl hŷn wedi eu hadnabod fel un o'r grwpiau blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru - grwpiau lle dylid ystyried eu hanghenion iaith fel mater o angen, nid fel mater o ddewis personol.

Am fwy o fanylion ar sut i ymdrin ag anghenion iaith Gymraeg pobl hŷn gydag urddas, cyfeiriwn chi at:

Roberts G, Jones E & Ap Rhisiart D (2011) Dignity in Care: Giving Voice to Older People: Welsh Language Toolkit. Welsh Assembly Government, Cardiff.

Roberts G & Irvine F (2006) LLAIS Briefing Paper 1: Language Appropriate Practice in Health and Social Care. University of Wales Bangor. Download from: http://www.bangor.ac.uk/llais/brief/LLAIS_ORG.pdf

Roberts G, Irvine F, Jones P, Baker C & Williams C (2004) Report of a Study of Welsh Language Awareness in Healthcare Provision in Wales. Welsh Assembly Government, Cardiff. Download from:

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/415/ACF3394.pdf>

Roberts G & Williams C (2003) Words of Comfort: Promoting Language Appropriate Practice. University of Wales

Bangor. <http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/415/Gair-o-Gysur-pdf.pdf>

Mae nifer helaeth o bapurau eraill ar gael.

Yn ei fframwaith strategol “Mwy Na Geiriau” mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau bod pobl o bob oedran yn cael gwasanaeth iechyd a gofal yn y Gymraeg os mai dyna yw eu dymuniad. Yn achos pobl hŷn mae hyn yn hanfodol bwysig. Teimlwn bod angen i egwyddorion “Mwy na Geiriau” fod yn greiddiol i'r Strategaeth Pobl Hŷn.

Croesawn hefyd y ffaith bod ymgynghori wedi digwydd gyda phobl hŷn eu hunain, a bod llais y dinesydd hŷn yn glir yn y ddogfen. Deallwn nad dogfen am ofal yw hon, ond strategaeth ar gymuned, lles, tlodi, lefelau gweithgarwch a chyfleoedd i gyfrannu i'r gymdeithas, yn ogystal â pharatoi at gyfnod hwyrach mewn bywyd. Amlygir diffyg ystyriaeth iaith yn gliriach wrth ddarllen fersiwn Saesneg o'r ddogfen; os darllenir y Strategaeth yn y Gymraeg, mae'n hawdd cymryd yn ganiataol y bydd sylw yn cael ei roi i'r Gymraeg. Rydym yn argymhell cyfeirio at y Gymraeg yn y ddogfen, er mwyn codi ymwybyddiaeth o anghenion iaith pobl hŷn wrth gynllunio gweithdrefnau'r Strategaeth.

Ym mhob un o'r meysydd blaenoriaeth (Lles, Cymunedau sy'n Ystyriol o Oedran; Cyfranogiad a Chyfraniad; Tlodi) mae angen i'r iaith Gymraeg gael lle canolog.

2. A ydych yn cytuno â'r meysydd â blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer trydydd cam y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn: Lles; Cymunedau sy'n Ystyriol o Oedran; Cyfranogiad a Chyfraniad; Tlodi?

Lles

3. A ydych yn cytuno bod materion a blaenoriaethau pobl hŷn o ran lles yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y bennod hon?

Rhaid ystyried anghenion cyfathrebu os am hybu lles. Mae ystyried anghenion iaith unigolion wrth reswm yn allweddol wrth drafod cyfathrebu. Rydym yn siomedig felly nad oes unrhyw gyfeiriad at iaith yn y bennod hon. I nifer helaeth o bobl hŷn mae medru cyfathrebu, cymdeithasu, ac ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus yn y Gymraeg yn gwbl hanfodol i'w lles. Mae methiant i gynnwys y Gymraeg fel elfen greiddiol i les pobl hŷn yn fethiant difrifol.

Mae nifer sylweddol o bobl hŷn yn byw gyda chyflyrau iechyd hir-dymor. Mae nifer o'r cyflyrau hyn, megis strôc, dementia, clefyd Parkinsons ac ati, yn gallu cael effaith ar allu person i gyfathrebu. Yn aml gwelwn bod pobl yn colli gafael ar yr ieithoedd y maen nhw wedi eu dysgu fel ail neu drydedd iaith a dim ond yn gallu cyfathrebu yn eu mamiaith, yn yr achos hwn y Gymraeg. Mae methu cyfathrebu gydag eraill yn y Gymraeg yn cael effaith andwyol iawn ar les pobl hyn yn y sefyllfa hon.

Rydym yn siomedig tu hwnt nad yw'r bennod hon yn cyfeirio at Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg mewn Gofal a Iechyd, "Mwy Na Geiriau", a gyhoeddwyd ddiwedd 2012. Mae angen i'r Llywodraeth sicrhau bod "Mwy na Geiriau" yn cael ei gynnwys yn y strategaeth derfynol ochr yn ochr a'r holl stratgaethau a fframweithiau eraill a amlinellir yn y bennod hon. Mae "Mwy na Geiriau" yn datgan yn glir bod angen i wasanaeth wneud *cyinnig rhagweithiol fel nad yw pobl yn gorfod gofyn am ystyriaeth i'w hanghenion iaith*. Yn hytrach, nodir mae *cyfrifoldeb y gwasanaeth bob amser yw cynnig dewis iaith*. Rhaid sicrhau bod yr egwyddor hon yn cael ei hymgorffori yn y Strategaeth Pobl Hŷn.

4. Yn eich barn chi, sut y dylem fesur gwelliant a llwyddiant o ran lles pobl hŷn?
5. Beth arall y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ei wneud i ymdrin ag anghenion pobl hŷn?
6. A allwch roi tystiolaeth o enghreifftiau o ymyriadau effeithiol y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried?

Cyfeiriwn chi at ymchwil "Mwy na Geiriau", sy'n dangos yn glir beth yw pwysigrwydd ymateb i anghenion iaith pobl. Un ymyriad effeithiol felly yw sicrhau darpariaeth ieithyddol briodol - yng Nghymru, mae hyn yn golygu ymateb i anghenion iaith Gymraeg pobl, gan fod Cymraeg a Saesneg â

statws cyfartal, ac hefyd ystyried anghenion iaith pobl o leiafrifoedd ethnig, fel mater o arfer da.

7. A hoffech ddweud unrhyw beth arall wrthym.

Cyfraniad a chyfranogiad

8. A ydych yn cytuno bod y materion a'r blaenoriaethau o ran cyfraniad a chyfranogiad pobl hŷn mewn cymdeithas yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y bennod hon?

Unwaith eto does dim cyfeiriad o gwbl at y Gymraeg yn y bennod hon. Rhaid sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cyfrannu i gymdeithas yn eu dewis iaith a bod cyfleoedd iddyn nhw wneud hynny yn y Gymraeg ym mhob maes. Mae ymchwil yn dangos bod diffyg cyfleoedd i greu perthynas ryngweithiol, gyd-ddibynnol gydag eraill, a diffyg cyfleoedd i gyfathrebu yn gallu achosi teimladau o unigedd. Mae'r rhain yn rhai o'r prif ffactorau sy'n effeithio ar les unigolion hŷn. Mae'r ddogfen yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi fod pobl hŷn yn teimlo eu bod yn rhan o gymuned, ond os nad oes sôn am natur y gymuned yn ieithyddol, nid oes modd cynllunio sut i hybu cyfranogaeth gan siaradwyr Cymraeg. Mae'n amserol iawn i ystyried hyn ar hyn o bryd, yn sgil y Cyfrifiad, a ddangosodd fod dirywiad wedi bod yn ein cymunedau naturiol, traddodiadol, daearyddol Cymraeg, er na newidiodd niferoedd y siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru gymaint â hynny. Mae'n bwysig cofio fod 85% o siaradwyr Cymraeg yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd, ac felly mae'n amlwg fod ystyr y gair "cymuned" wedi newid; nid pobl yr un stryd â chi yw'ch cymuned o reidrwydd nawr ond yn hytrach, eich cymuned yw'r bobl yr ydych yn cymysgu gyda nhw, eich teulu, eich ffrindiau, pobl yn eich gwaith a'ch gweithgareddau hamdden dewisol. Mae hyn yn awgrymu fod cymunedau Cymraeg yn gymunedau haenog ac nid o reidrwydd yn gymunedau daearyddol mwyach. Rhaid, felly, cynllunio sut i gefnogi pobl hŷn i gynnal cyfranogaeth i'w cymunedau, wrth ystyried ffactorau sy'n effeithio ar eu gallu i gyfranogi, o bosib - ffactorau fel ymddeol, cyfleoedd a sgiliau teithio, sgiliau a hyder TG i gyfathrebu a rhwydweithio.

Awgrymwn ychwanegu paragraff o dan y pennawd lles sy'n mynegi rhywbeth fel hyn:

“Wrth ystyried pwysigrwydd cyfranogi i'r gymuned fel ffactor sy'n cael effaith gadarnhaol ar les personol pobl hŷn, rhaid ystyried anghenion iaith yr unigolyn, a'u hwyluso i allu cael mynediad i gymunedau sy'n ieithyddol briodol. Gall "cymuned" ddisgrifio rhwydwaith haenog yn y ganrif hon; nid cysyniad daearyddol mohono mwyach. Mae angen ystyried iaith wrth hwyluso cyfranogaeth gan bobl hŷn i'w cymunedau. Er enghraifft, gallai darparu cyfleoedd i bobl hŷn wella eu sgiliau TG a sicrhau trafndiaeth briodol

helpu i rymuso pobl hŷn i fod aelodau llawn o'u cymunedau dewisol, beth bynnag fo'u iaith”.

9. Yn eich barn chi, sut y dylem fesur gwelliant a llwyddiant o ran cyfraniad a chyfranogiad pobl hŷn?
10. Beth arall y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ei wneud i ymdrin ag anghenion pobl hŷn?
11. A allwch roi tystiolaeth o enghreifftiau o ymyriadau effeithiol y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried?
12. A hoffech ddweud unrhyw beth arall wrthym.

Cymunedau sy'n ystyriol o oedran

13. A ydych yn cytuno bod materion a blaenoriaethau pobl hŷn a chymunedau sy'n ystyriol o oedran yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y bennod hon?

Teimlwn bod y pwyslais yn y bennod hon ar gymunedau o ran amgylchedd adeiledig yn hytrach na chymunedau o bobl. Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith fwyafrifol wedi edwino. Canlyniad hyn yw bod pobl hŷn sy'n byw yn y cymunedau fu gynt a mwyafrif yn siarad Gymraeg yn teimlo dan warchae ac wedi'u dieithrio o'u cymunedau cynhenid. Maen nhw'n gweld newid o ran y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn y gymuned – e.e. nyrsus cymunedol sydd ddim yn medru'r Gymraeg; darparwyr cludiant cyhoeddus sydd ddim yn medru'r iaith; adnoddau cymunedol, fel neuaddau pentref a chymdeithasau lleol, yn dod dan reolaeth rhai sydd wedi symud i mewn i'r ardal o fannau eraill a ddim yn gwerthfawrogi natur ieithyddol yr ardal.

Mae angen i'r Gymraeg fod yn greiddiol i'r cysyniad o gymunedau sy'n ystyriol o ran oedran. Fel yr amlinellwyd uchod ma nifer o bobl hŷn yn colli'r gallu i gyfathrebu yn eu hail iaith, neu ieithoedd y mae nhw wedi'u dysgu, wrth heneiddio, oherwydd cyflyrau fel dementia a stroc. Rhaid ystyried hyn wrth baratoi gwasanaethau a darpariaethau yn y gymuned. Awgrymwn hefyd bod trafod rhwng y swyddogion sy'n gweithredu Strategaeth Iaith Gymraeg y Llywodraeth, “Iaith Fyw; Iaith Byw” a'r swyddogion sy'n gweithredu'r Strategaeth Pobl Hŷn er mwyn rhoi ystyriaeth drylwyr i anghenion pobl hŷn yn y cymunedau Cymraeg

14. Yn eich barn chi, sut y dylem fesur gwelliant a llwyddiant o ran datblygu cymunedau sy'n ystyriol o oedran?
15. Beth arall y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ei wneud i ymdrin ag anghenion pobl hŷn?

16. A allwch roi tystiolaeth o enghreifftiau o ymyriadau effeithiol y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried?

17. A hoffech ddweud unrhyw beth arall wrthym.

Tlodi

19. A ydych yn cytuno bod materion a blaenoriaethau pobl hŷn o ran tlodi a lles ariannol yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y bennod hon?

20. Yn eich barn chi, sut y dylem fesur gwelliant a llwyddiant o ran tlodi a lles ariannol pobl hŷn?

21. Beth arall y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ei wneud i ymdrin ag anghenion pobl hŷn?

22. A allwch roi tystiolaeth o enghreifftiau o ymyriadau effeithiol y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried?

23. A hoffech ddweud unrhyw beth arall wrthym.

Paratoi am gyfnod hwyrach mewn bywyd

24. Sut y gall y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn geisio ymdrin â rhai o'r materion ynghylch paratoi am gyfnod hwyrach mewn bywyd, tra'n parhau i ganolbwyntio'n bennaf ar fywydau pobl hŷn?

25. A yw rhai o'r camau a gaiff eu cymryd, ac a fydd yn cael eu cymryd, gan y Strategaeth hefyd yn gymwys i bobl nad ydynt ar gam hwyrach mewn bywyd eto?

26. Beth y gellir ei wneud i helpu pobl i baratoi ar gyfer cyfnod hwyrach mewn bywyd a chymryd camau ataliol?

Rydym yn croesawu'r bennod hon a'r pwyslais ar baratoi ar gyfer heneiddio a chyfnod hwyrach mewn bywyd. Yn ddi-os mae cyfrifoldeb ar yr unigolyn i baratoi ond rydym yn siomedig nad oes llawer o sŷn yn y bennod am yr angen i wasanaethau cyhoeddus baratoi ar gyfer anghenion poblogaeth sy'n heneiddio, yn enwedig yng nghyswllt darparu gwasanaethau yn y Gymraeg.

Gellir dadlau bod mwyafrif y genhedlaeth bresennol o bobl hŷn yn bobl sydd heb arfer mynnu gwasanaethau Cymraeg. O edrych ar y genhedlaeth ganol oed ac iau bresennol mae'n debygol y bydd y sefyllfa yn newid. Mae mwy o lawer o bobl canol oed ac iau yn barod i fynnu eu hawl i wasanaethau Cymraeg ac wrth iddyn nhw heneiddio mae'n annhebyg y bydd eu hawydd yn pylu. Felly rhaid i Lywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Iechyd a gwasanaethau

cyhoeddus eraill baratoi nawr ar gyfer anghenion y genhedlaeth nesaf o bobl hŷn.

Lluniwyd yr ymateb ar ran Dyfodol i'r Iaith gan:

Elin Wyn

Dr Elin Walker Jones

Beti George

Manylion cyswllt: post@dyfodol.net

